# RHWYDWAITH ARDDANGOS
## Medi – Tachwedd 2017

FARMING connect
cyswllt FFERMIO

### Sgôr RAG

■ Coch ■ Oren ■ Gwyrdd

| | |
|---|---|
| **Gwyrdd** | Prosiectau a digwyddiadau yn unol â'r targed |

### Rhwydwaith Safleoedd Arddangos

| | |
|---|---|
| Safle Arloesedd | 8 |
| Safle Arddangos | 12 |
| Safle Ffocws (Cyfanswm Cronnus) | 85 |

### Digwyddiadau'r Rhwydwaith Arddangos

Medi – Tachwedd 2017

| Disgrifiad | Cyfanswm Digwyddiadau (Targed Blynyddol) | Cyfanswm Digwyddiadau (A Gynhaliwyd) |
|---|---|---|
| Digwyddiadau safleoedd arloesedd | 30 | 12 |
| Digwyddiadau safleoedd arddangos | 36 | 26 |
| Digwyddiadau safleoedd ffocws | 54 | 22 |

**1100** WEDI MYNYCHU DIGWYDDIADAU'R RHWYDWAITH ARDDANGOS

**Mae'r map isod yn dangos y digwyddiadau a gynhaliwyd ar draws Cymru sy'n gysylltiedig â'r rhwydwaith safleodd arddangos.**




Digwyddiadau a gynhaliwyd rhwng Hydref 2015 ac Awst 2017
**Cyfanswm o 294 digwyddiad**

Medi 2017 hyd Tachwedd 2017 **Cyfanswm o 60 digwyddiad**

**Math o ddigwyddiad**


**53%** YN DDIGWYDDIADAU CYNNYDD (CAEËDIG)

**47%** YN DDIGWYDDIADAU AGORED

### Gweithgareddau yn ôl sector yn y Rhwydwaith Arddangos

Digwyddiadau wedi'u rhannu yn ôl y math o safle (Hydref 2015 – Tachwedd 2017)

Cliciwch yma am ragor o wybodaeth ynglŷn â phrosiectau a digwyddiadau yn ein Rhwydwaith Arddangos.




### Prosiectau ar fferm

#### Canolbwyntio ar Ddata

Mae Safle Ffocws Ystâd Rhug yn ail-asesu'r fenter pesgi bîff presenol ac yn ystyried defnyddio technoleg EID i fonitro a chyflawni Dangosyddion Perfformiad Allweddol, gan gynnwys:

CYNYDDU'R CYNNYDD PWYSAU BYW O 0.5KG/DYDD I 0.8KG/DYDD

LLEIHAU'R AMSER PESGI O 29 MIS I 24 MIS AR 625KG

COSTAU BWYD FESUL DIWRNOD £1.21 (£1.50/KG CYNNYDD MEWN PWYSAU) 30C ELW AM BOB KG A ENILLIR FESUL DIWRNOD

Gan ystyried bod hon yn fenter organig, bydd opsiynau bwyd amgen hefyd yn cael eu hystyried i sicrhau bod y targed elw dyddiol yn cael ei gyflawni.

#### Canolbwyntio ar Elw

Mae gweithio gyda nifer o brosiectau coedwigaeth wedi arwain at welliannau sylweddol ar Fferm Arddangos Tynyberth, gan gynnwys:

- +£12,000 trwy blannu dros 40ha o goetir cymysg
- +£60,000 o gyfandaliad posibl trwy'r Cod Carbon Coetiroedd o ganlyniad i blannu coed

Mae lefelau allbwn y ddiadell hefyd wedi cael eu trafod ac mae prosiectau Cyswllt Ffermio wedi arwain at:

- Gynhyrchu 150 o ŵyn o 30 yn rhagor o ddefaid yn unig
- Lleihau lefelau cloffni yn sylweddol i lai na 2% o achosion yn y ddiadell
- Cynyddu ansawdd porthiant trwy gynllunio ailhadu a gwell detholiad o godlysiau


### Focus on Summer Forage

Mae gallu meillion Balansa a Berseem i sefydlogi nitrogen wedi gwella ffrwythlondeb pridd ac wedi arbed £2,016 ar fferm Llyn Rhys, un o Safleoedd Ffocws Cyswllt Ffermio ger Wrecsam. Cafodd y cnwd hefyd ei dorri fel silwair, gan gynhyrchu 33 o fyrnau – cyfwerth â phedair tunnell fesul hectar. Danogsodd dadansoddiad silwair bod gwerth protein crai o 14.5%, ME o 11.5MJ/kg, gwerth D o 72 a 46% o ddeunydd sych (DM). Cafodd y silwair ei fwydo i famogiaid a oedd yn cario gefeilliaid a thripledi yn ystod y cyfnod cyn ŵyna. Trwy fwydo'r porthiant o ansawdd gwell nid oedd rhaid rhoi dwysfwyd am bythefnos yn hwy, gan arwain at arbediad o £1.68 y pen, fe amcangyfrifir.



### Canolbwyntio ar Borthiant y Gaeaf

Mae gaeafu defaid ar gnydau porthiant wedi arbed dros £4,000 i Safle Arddangos Rhiwgriafol o'i gymharu â defnyddio'r system draddodiadol o fwydo dwysfwyd a pori gohiriedig. Mae bwydo 250 o famogiaid ar 6 erw o swêj hefyd wedi arwain at y canlynol:



**Llai o ofynion llafur** | **Gwell cyflwr ar y mamogiaid** | **Gwell rheolaeth tir**




### Canolbwyntio ar Faetholion


#### Cynllunio Rheoli Maetholion

Mae symud oddi wrth brynu gwrteithiau safonol i ychwanegu'n seiliedig ar statws y pridd a gofynion y cnwd wedi arwain ganoblwyntio'n fwy penodol ar y busnes ar Safle Arddangos Lower Eyton. Yn dilyn samplu pridd ar y fferm gyfan mewn 35 cae, gwelwyd bod 50% o'r tir angen calch ychwanegol ac mae cynllunio rheoli maetholin wedi dangos bod y tail dofednod a gwartheg a gynhyrchwyd ar y fferm werth £5,600.

**£5,600 =**



GWERTH £1,000 O HAID O DAIL O 5,000 O DDOFEDNOD




GWERTH £4,600 O DAIL 300 O WARTHEG BÎFF

### Canolbwyntio ar Feincnodi

#### Elw gros cnydau âr

Mae cyfrifo elw gros a meincnodi wedi cynorthwyo'r system ffermio cymysg ar Safle Ffocws Upper Pendre i werthuso rôl y mentrau gwahanol ac i ystyried dyfodol y busnes. Rhoddwyd sylw penodol i'r fenter âr. Mae'r cnydau âr fel arfer yn cynnwys 40ha o wenith, 20ha o haidd a 16ha o rygwenith. O ganlyniad i fethu â chael gafael ar hadau rhygwenith o ansawdd uchel, mae'r fferm wedi tyfu 6ha o ryg yn 2017 fel cnwd arbrofol. Roedd canlyniadau'r prosiect yn awgrymu'r canlynol:

- Mae gan bob cnwd elw gros uwch na'r cyfartaledd fesul hectar
- Gwenith a rhygwenith yw'r cnydau mwyaf proffidiol
- Mae pob cnwd heblaw am y rhyg yn dangos elw net cadarnhaol
- Yn 2018, nid yw rhyg wedi bod mor llwyddiannus â rhygwenith oherwydd llai o allbwn a chostau amrywiol uwch




### CYFATHREBU'R CANLYNIADAU

Mae cyfathrebu canlyniadau'r gwaith sy'n cael ei wneud ar y rhwydwaith arddangos yn hanfodol. Mae Cyswllt Ffermio yn defnyddio dulliau amrywiol i sicrhau bos cymaint o bobl â phosibl yn derbyn yr wybodaeth sy'n deillio o'r prosiectau, gan gynnwys:

- Erthyglau: 10 wedi'u creu – mae'r holl erthyglau ar y wefan, a gan ddibynnu ar y cynnwys, mae rhai'n cael eu rhannu gyda'r Frmers Guardian,
- Blogiau a Vlogiau i gynnig diweddariadau o'r safleoedd – mae 12 wedi'u creu
- Cyfryngau Cymdeithasol:
  Diweddariadau Facebook: 50
  Diweddariadau Twitter: 52
- Fideos: 6
- Ymweliadau â'r wefan:
  Safleoedd Arloesedd: Saesneg 209, Cymraeg, 25
  Safleoedd Arddangos: Saesneg 706, Cymraeg, 122
  Safleoedd Ffocws: Saesneg 553, Cymraeg 160




Llywodraeth Cymru
Welsh Government